**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-06-1161
Ein cyf/Our ref: JMSS/00781/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

22 Gorffennaf 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 4 Gorffennaf yn gofyn am fanylion y camau ymarferol sy'n cael eu cymryd i gyflawni wyth ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu sy'n ymwneud â gwasanaethau plant. Mae'n bleser gennyf nodi crynodeb o'r cynnydd sydd wedi'i wneud ar gyfer pob un o'r rhain isod a'r camau nesaf.

<u>Edrych ar ddiwygiadau radical i'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal</u>

Rydym am weld llai o blant a phobl ifanc yn cael eu rhoi mewn gofal a bod y cyfnod y mae pobl ifanc yn aros mewn gofal mor fyr â phosibl, yn gyson â diwallu anghenion y person ifanc.

Mae Bwrdd Goruchwylio wedi'i sefydlu, o dan gadeiryddiaeth person annibynnol, Anthony Douglas, i gyflwyno gweledigaeth ac uchelgais newydd ar gyfer gwasanaethau plant, yn seiliedig ar arferion cyson, ymddygiadau sy'n llai gwrth-risg a dulliau adferol cenedlaethol i'w mabwysiadu ledled Cymru. Nid cyfrifoldeb awdurdodau lleol yn unig yw cyflawni'r weledigaeth hon; mae'n gofyn am weithio mewn partneriaeth ar draws gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector. Mae'r Cadeirydd wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o bob adran gwasanaethau plant awdurdod lleol yng Nghymru i drafod y materion hyn.

Mae digwyddiad hanner diwrnod yn cael ei drefnu ddechrau'r hydref i aelodau'r Bwrdd Goruchwylio ystyried canfyddiadau cyfarfodydd y Cadeirydd gydag awdurdodau lleol. Bydd y digwyddiad yn canolbwyntio ar arferion gorau, datblygu Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol a rhaglen gydlynol o ddiwygio radical.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ogystal, mae Gweinidogion yn ymweld ag awdurdodau lleol dros yr haf i drafod trawsnewid gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal. Mae ymweliadau'n canolbwyntio ar ddarparu dull adferol o ymdrin ag arferion gofal cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar gadw teuluoedd gyda'i gilydd, drwy wasanaethau cymorth a chyngor cynnar sydd ar gael ar yr adeg iawn i rieni a phlant.

Mae Uwchgynhadledd i'r Rhai sy'n Gadael Gofal hefyd yn cael ei chynnal ar 10 Medi rhwng y rhai sy'n gadael gofal, Gweinidogion Cymru a gwleidyddion llywodraeth leol. Ei nod yw clywed yn uniongyrchol gan bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal a datblygu gweledigaeth gydlynol o sut beth fyddai gwasanaethau sydd wedi'u diwygio'n radical, gan ddylanwadu ar bolisi a darpariaeth gwasanaethau ar draws portffolios.

<u>Atal teuluoedd rhag chwalu drwy ariannu gwasanaethau eiriolaeth i rieni y mae eu plant yn wynebu risg o fynd i ofal</u>

Cytunwyd ar drefniadau ariannu i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau eiriolaeth i rieni ym mhob un o'r saith rhanbarth yng Nghymru o fis Ebrill 2022 ymlaen. Bydd y gwasanaeth yn cefnogi rhieni y mae eu plant ar ffiniau gofal, gan helpu i osgoi cynnwys y gwasanaethau cymdeithasol statudol, atal anghenion rhag gwaethygu a lleihau'r risg y bydd plant yn dod yn rhan o'r system ofal.

Defnyddir cyllid i gynyddu prosiectau Eiriolaeth i Rieni presennol ar sail ranbarthol ac i sicrhau bod gwasanaethau newydd yn cael eu sefydlu fel rhan o broses gyflwyno genedlaethol. Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid presennol yn y trydydd sector (y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol yng Ngwent a'r Rhwydwaith Eiriolaeth Rhieni yng Ngorllewin Morgannwg) i ddatblygu eu capasiti rhanbarthol.

Rydym hefyd bellach wedi datblygu Fframwaith Cenedlaethol drafft ar gyfer Eiriolaeth i Rieni a fydd yn disgrifio'r meini prawf gwasanaeth craidd y mae'n rhaid i bob rhanbarth eu sefydlu, gan sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n gyson ledled Cymru.

Bydd cyllid yn 2022/23 yn canolbwyntio ar gynyddu'r cyflenwad rhanbarthol presennol, datblygu'r fframwaith cenedlaethol ac annog dull sy'n seiliedig ar gonsortiwm i alluogi datblygu capasiti ychwanegol cyn ymestyn y ddarpariaeth i ranbarthau eraill wedi hynny.

<u>Darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar ffiniau gofal</u>

Drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a thrwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol rydym wedi nodi prosiectau a dulliau newydd ledled Cymru sydd o fudd i blant ag anghenion cymhleth, megis anabledd ac anghenion emosiynol/ymddygiadol, ac sy'n galluogi plant i aros yng ngofal eu teuluoedd. Rydym wedi derbyn cynlluniau gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac wedi gweithio gyda chydweithwyr ar draws y llywodraeth i sicrhau bod y cyllid sydd ar gael ym mlwyddyn ariannol 2022/23 yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau i blant ag anghenion cymhleth.

Dechreuodd adolygiad thematig o gynigion buddsoddi 2022/23 i ddeall yr union wariant arfaethedig yn erbyn pob model gofal ym mis Mehefin. Ar hyn o bryd rydym wedi nodi 28 o brosiectau sy'n cyfrannu at fodel gofal 'Cynorthwyo teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel a chymorth therapiwtig i blant â phrofiad o fod mewn gofal'. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyfarfod â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol bob chwarter er mwyn cynnal cyfarfodydd cynnydd, gan drafod cyllid, gweithgareddau allweddol, cynnydd a risgiau.

Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn y dylai 'gofal cyhoeddus' olygu bod plant yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol, neu ddarparwyr nid-er-elw eraill, lle mai gwerthoedd cymdeithasol a lles gorau plant a chanlyniadau i blant yw'r prif gymhellion.

Rydym wedi dechrau rhoi cynlluniau ar waith i helpu i drosglwyddo i fodel gofal nid-er-elw ar gyfer gwasanaethau maeth a gofal preswyl yng Nghymru yn ystod tymor y Senedd hon. Un o'r egwyddorion allweddol yw nad yw arian cyhoeddus a fuddsoddir mewn llety ar gyfer plant â phrofiad o fod mewn gofal yn cael ei gymryd allan fel elw, ond yn hytrach yn cael ei ailfuddsoddi yn y gwasanaeth er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i blant, gwasanaeth gwell a datblygiad proffesiynol pellach.

Nid yw hyn yn ymwneud â disodli un darparwr gyda darparwr tebyg arall. Ein gweledigaeth yw ailgynllunio'r ffordd yr ydym yn gofalu am blant a phobl ifanc fel y gallwn wneud y gorau dros ein pobl ifanc, eu teuluoedd a'n cymunedau drwy ddarparu gwasanaethau sydd wedi'u lleoli'n lleol, wedi'u cynllunio'n lleol ac yn atebol yn lleol.

Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i osgoi ansefydlogi lleoliadau i blant. Byddwn yn gweithio'n agos ac yn amserol gyda'r sector, i drawsnewid yn ofalus y ffordd orau o ofalu am blant yng Nghymru.

Rydym wedi sefydlu Bwrdd Rhaglen amlasiantaethol, o dan gadeiryddiaeth Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, Albert Heaney. Mae'r Bwrdd yn canolbwyntio ar gyflawni o fewn fframwaith llywodraethu cryf ac asesiad effaith trylwyr. Bydd cydweithio â'n rhanddeiliaid yn allweddol i sicrhau llwyddiant.

Mae gennym gynrychiolaeth eang o'r sector sy'n cynnwys darparwyr yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, comisiynwyr gwasanaethau, Comisiynydd Plant Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, undebau llafur a Voices from Care. Mae ein hymrwymiad i hawliau plant a llais plant a phobl ifanc hefyd wedi'i ddogfennu yng ngwaith Bwrdd y Rhaglen a'i ffrydiau gwaith.

Yn ogystal, rydym yn cydweithio â rhanddeiliaid ar draws y sector i sicrhau ein bod yn cynnig ymgysylltiad a chyfleoedd cynhwysfawr i ystyried materion, pryderon ac awgrymiadau amrywiol.

Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos at eu cartrefi â phosibl ac yng Nghymru lle bynnag y bo hynny'n ymarferol

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar wahanol gamau o ran datblygu eu cynigion a bydd adroddiadau diwedd blwyddyn yn cael eu cwblhau ym mis Gorffennaf. Disgwylir i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol barhau i fuddsoddi a datblygu darpariaeth drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Mae Powys wedi gofyn am gyllid refeniw ychwanegol gan fod eu prosiect flwyddyn yn hwyr ac rydym wrthi'n trafod sut i ddod o hyd i'r cyllid hwn.

Cryfhau cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel 'rhiant corfforaethol'

Y canlyniadau allweddol ar gyfer y gwaith hwn yw datblygu siarter rhianta corfforaethol yn ystod 2022 a chod statudol yn 2024. Sefydlwyd Grŵp Gweithredu sy'n cynnwys partneriaid statudol a phartneriaid yn y trydydd sector i oruchwylio'r gwaith hwn.

Mae'r Siarter yn cael ei chwblhau ar hyn o bryd ac yna bydd yn cael ei chyflwyno imi ei chymeradwyo. Ceisir llofnodion i'r Siarter gan uwch-arweinwyr yn ystod sesiynau ymgysylltu

a digwyddiadau a gynhelir gyda'r sector cyhoeddus yn ddiweddarach yn 2022, gan gynnwys y sectorau iechyd, addysg a thai.

Bydd sefydliadau ac uwch-arweinwyr sy'n ymuno â'r Siarter yn gwneud ymrwymiad cyhoeddus clir gan ddatgan eu cefnogaeth i bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal a thrwy wneud hynny'n cael eu dal yn atebol i sicrhau bod gwell cynnig o gymorth yn cael ei ddarparu i bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal gan bob rhan o'r sector cyhoeddus.

Bwriedir i'r Siarter gael ei lansio yn yr Uwchgynhadledd i'r Rhai sy'n Gadael Gofal ar 10 Medi.

<u>Parhau i gefnogi a chynnal hawliau plant a phobl ifanc ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches</u>

Ar 22 Mehefin, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei chynllun i Senedd y DU a fydd yn darparu llwybr fisa i noddi plant sy'n dod gyda'u teulu, neu heb eu teulu. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cynllun mewn egwyddor ond mae gwaith pellach i'w wneud mewn perthynas â chostau'r cynllun.

Rydym wedi dadlau'n gryf o blaid tariffau a gymhwysir yn wahanol a thariffau uwch. Anfonodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Neil Gray ASA lythyr gyda'i gilydd at yr Arglwydd Harrington, y Gweinidog Ffoaduriaid, yn amlinellu eu pryderon ar y cyd. Nid yw materion ariannu wedi'u datrys eto ac mae sgyrsiau'n parhau. Rydym wedi dadlau y dylai fod gan y cynllun y lefel uchaf o sicrwydd o ran diogelwch ac rydym yn falch bod Llywodraeth y DU wedi cytuno i'n cynnig i ddefnyddio gwasanaeth paru i gefnogi ceisiadau er mwyn osgoi paru ar y cyfryngau cymdeithasol.

Cynhaliwyd amrywiaeth o gyfarfodydd gan swyddogion Llywodraeth y DU (y Swyddfa Gartref) i drafod canllawiau sy'n ymwneud â phobl ifanc ar eu pennau eu hunain ac mae'r rhain yn parhau.

<u>Cefnogi ein cynllun Maethu Cymru cenedlaethol</u>

Sefydlwyd Maethu Cymru fel rhwydwaith cenedlaethol cydweithredol o'r holl dimau maethu nid-er-elw mewn awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae Maethu Cymru yn gweithio fel tîm gyda gofalwyr maeth i adeiladu dyfodol gwell i blant lleol drwy eu helpu i aros yn eu hardal leol pan fydd hynny'n iawn iddynt. Mae Maethu Cymru wedi cynnal ymgyrchoedd marchnata proffil uchel ym mlwyddyn ariannol 2021-22 ac mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi seilwaith Maethu Cymru drwy drefniadau ariannu ddwywaith y flwyddyn.

Mae ymgyrchoedd yn cael eu datblygu ar gyfer targedu gofalwyr maeth yn benodol o asiantaethau eraill. Dyma fydd ffocws ymgyrchoedd marchnata cenedlaethol a lleol yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst. Yn ogystal, mae ymgyrch yn seiliedig ar Blant ar eu Pennau eu Hunain sy'n Ceisio Lloches hefyd yn cael ei chynllunio i'w chyflwyno ddiwedd mis Gorffennaf.

Yr eiddoch yn gywir,

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services